Cytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd

Cardiff Capital Region City Deal

Annwyl Randdeiliad,

**Cytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd - Ymgynghoriad ar Drafnidiaeth**

Rydw i'n ysgrifennu atoch chi ar ran Awdurdod Trafnidiaeth Dros Dro Prifddinas Ranbarth Caerdydd. Cafodd yr Awdurdod yma ei ffurfio yn rhan o ymrwymiadau Cytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd.

O dan y Cytundeb Dinesig, rydyn ni wedi llunio Strategaeth Drafnidaeth Amlinellol ar gyfer Prifddinas Ranbarth Caerdydd. Rydw i'n falch o rannu copi o'r strategaeth ddrafft yma gyda chi, yn ogystal â'ch gwahodd chi i ymateb i'r ymarfer ymgynghori yma. Rydyn ni'n awyddus iawn i glywed eich barn.

Mae Cytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd yn amlinellu'r nod i fuddsoddi arian er mwyn hybu twf yn yr ardal. Un o brif themâu'r Cytundeb Dinesig yw gwella cysylltedd ym Mhrifddinas Ranbarth Caerdydd. Mae bron £740m o gyllid y Cytundeb Dinesig wedi'i ymrwymo eisoes er mwyn creu rhan helaeth o rwydwaith Metro'r de ddwyrain. Dyma fan cychwyn y broses a fydd yn trawsnewid ein seilwaith o ran trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â'n gwasanaethau. Bydd hyn yn sbarduno twf economaidd.

Mae Awdurdod Trafnidiaeth Dros Dro Prifddinas Ranbarth Caerdydd wedi llunio Strategaeth Drafnidiaeth Amlinellol Ranbarthol, sy'n nodi'r camau allweddol o ran sut rydyn ni'n bwriadu adeiladu ar yr ymrwymiad yma.

Dydy'r Strategaeth Trafnidiaeth Amlinellol Ranbarthol ddim yn cymryd lle'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol statudol a gafodd eu creu gan yr awdurdodau lleol yn 2015. Mae'r Strategaeth yn dod â'r Cynlluniau yma at ei gilydd er mwyn pennu amcanion trafnidiaeth ar y cyd, cyflwyno camau gweithredu byr dymor er mwyn symud ymlaen gydag ymyraethau sy'n blaenoriaethau strategol yn ogystal â rhaglen strategol hir dymor ar gyfer cyflenwi. Bydd y rhaglen yma'n cynnwys cynlluniau allweddol a fydd yn cyflawni'r buddion a'r effaith mwyaf ledled y rhanbarth.

Cwblhewch holiadur yr ymgynghoriad er mwyn cyflwyno'ch barn a sylwadau ar ddrafft y Strategaeth Trafnidiaeth Gymunedol Amlinellol.

Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 23 Mawrth 2018.

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau, neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rebecca Smith (01443 494858) neu Christian Schmidt (07471 479239) neu anfonwch e-bost i strategaethtrafnidiaeth@rctcbc.gov.uk.

Yn gywir

Huw David

Y Cynghorydd Huw David
Ar ran Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas Rhanbarth Caerdydd